Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Stanwell

**Archer Road**
**Penarth**
**CF64 2XL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Stanwell

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Stanwell |
| Awdurdod lleol | Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1998 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1523 |
| Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol) | 474 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.7%)* | 4.9% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.7%*) | 13.3% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.2% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 12-05-2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Stanwell yn cynnig amgylchedd dysgu symbylol i ddisgyblion ac ystod eang o gyfleoedd iddynt fynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain. Mae uwch arweinwyr yn cynnig cyfarwyddyd clir i staff ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant parhaus. Maent wedi meithrin ethos lle mae gan staff yr hyder i fod yn arloesol ac arbrofi â'u dulliau addysgu. Mae uwch arweinwyr yn deall pwysigrwydd datblygu methodolegau addysgu sy'n benodol i'r pwnc ac maent yn ymddiried mewn arweinwyr canol i hyrwyddo strategaethau sy'n ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn dal eu diddordeb. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r addysgu o ansawdd uchel. Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cynyddol ar les disgyblion ac mae staff yn dangos lefelau uchel o barch a gofal tuag at ddisgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ysgwyddo rolau arweinyddiaeth allweddol a lleisio eu barn.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i fynd ar drywydd eu diddordebau a datblygu eu doniau. Mae cryfderau penodol yn y modd y mae'r ysgol yn cynnig cyngor i ddisgyblion i'w helpu i wneud dewisiadau ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. Fodd bynnag, mae disgyblion yn dewis eu pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 8, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt astudio pynciau fel celf a cherddoriaeth.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn frwdfrydig am eu pynciau ac yn cynllunio eu gwersi'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae perthynas waith gadarnhaol iawn rhwng staff a disgyblion ac, mewn llawer o achosion, mae athrawon yn annog a chynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol. Maent yn huawdl ac mae ganddynt fedrau darllen da, er nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg bob tro. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth a'u medrau pynciol er, mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall yr ymresymiad y tu ôl i'r dulliau maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau penodol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i gymorth unigol, tra ystyriol.

Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol wedi'i seilio ar ddyheadau uchel, cynwysoldeb a pharch yn gyson. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr ac yn dra ystyriol, er nad yw disgyblion yn teimlo eu bod yn cael digon o amser yn ystod y dydd i ymlacio, cymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain. At ei gilydd, mae ymddygiad disgyblion yn dda ac, mewn llawer o achosion, mae'n rhagorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn cefnogi dysgu ei gilydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau eu cyfoedion ac yn ymateb yn aeddfed iddynt.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd athrawon o holi i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu fynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain

A3 Cynyddu ystod y cyfleoedd a gaiff disgyblion i ymarfer eu Cymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau arweinyddiaeth disgyblion ac arweiniad yr ysgol i ddisgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a medrau pynciol. Gan fod cyfyngiadau'r pandemig wedi cael eu llacio, mae disgyblion wedi elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent wedi'u colli, fel arbrofion ymarferol, gweithio â thaclau, gwaith grŵp, trafodaethau dosbarth, actio a chwaraeon. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i gymhwyso eu dealltwriaeth bynciol yn dda, er enghraifft wrth ystyried pam na allai mathau penodol o donnau seismig gael eu teimlo ar ochr arall y Ddaear yn eu gwersi gwyddoniaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd a'u hathrawon. Mae gan lawer ohonynt eirfa gyffredinol a phwnc-penodol eang. Maent yn huawdl ac yn ymateb yn ystyriol i syniadau disgyblion eraill mewn trafodaethau dosbarth bywiog. Mae lleiafrif y disgyblion yn dangos soffistigeiddrwydd yn eu gallu i archwilio syniadau, er enghraifft wrth drafod bodolaeth yr enaid yn eu gwersi addysg grefyddol. Pan fydd disgyblion yn astudio iaith dramor fodern, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu geirfa a'u dealltwriaeth ramadegol o'r iaith honno'n dda. Yn y gwersi hyn, gall lleiafrif y disgyblion gynnig atebion estynedig, graenus i gwestiynau eu hathrawon.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion fedrau darllen cryf. Wrth ddarllen ar goedd, mae llawer ohonynt yn gwneud hynny'n hyderus ac â mynegiant da. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddarllen testunau heriol, echdynnu gwybodaeth berthnasol ohonynt ac amlygu'r pwyntiau allweddol. Gallant grynhoi a chyfosod yn dda, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol i ddod i gasgliadau. Yn gyffredinol, dônt i gasgliadau cywir o destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu darnau estynedig yn dda. Maent yn cyfathrebu'n gydlynol â sillafu, atalnodi a gramadeg cywir, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn llunio darnau celfydd o ysgrifennu estynedig yn eu gwersi Saesneg ac mewn ychydig o bynciau eraill hefyd, fel hanes a daearyddiaeth. Gall y mwyafrif ohonynt lunio ysgrifennu darbwyllol a chywrain, er enghraifft wrth esbonio effeithiau treth siwgr ar y farchnad diodydd ysgafn yn eu gwersi economeg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn llunio digon o ysgrifennu estynedig mewn ychydig o bynciau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i gymryd nodiadau o ffynonellau gwahanol yn dda; maent yn cynnwys dyfyniadau priodol ac yn nodi pwyntiau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig yn eu gwersi ieithoedd tramor modern ac yn defnyddio ystod eang o eirfa, strwythurau brawddegau ac amserau'r ferf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion amgyffrediad cymwys o dechnegau rhifedd sylfaenol ac maent yn defnyddio'r rhain mewn ystod addas o bynciau. Gall y rhan fwyaf ohonynt wneud cyfrifiadau syml, fel newidiadau canrannol, yn gywir a gall llawer ohonynt drin fformiwlâu yn briodol. Gall llawer o ddisgyblion ddosrannu'n gywir a throsi rhwng unedau gwahanol. Gall y mwyafrif ohonynt wneud dadansoddiadau tra ystyriol o ddata ystadegol, er enghraifft wrth ddadansoddi demograffeg yn eu gwersi

hanes. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion lunio a phlotio graffiau llinell yn gywir. Maent yn deall sut i ddisgrifio'r cydberthyniad rhwng newidynnau a gallant ddehongli patrymau yn y data yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ystyried yr ymresymiad y tu ôl i'r dulliau a ddefnyddiant i ddatrys problemau mathemategol bob tro, yn bennaf gan nad ydynt yn cael cyfleoedd digonol i wneud hynny.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn eu gwersi addysg gorfforol. Maent hefyd yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau ymarferol, fel wrth wneud arbrofion gwyddonol neu weithio â thecstilau yn eu gwersi dylunio a thechnoleg. Pan gânt y cyfle i wneud hynny, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf, er enghraifft wrth ysgrifennu naratif aflinol yn disgrifio trychineb Aberfan yn eu gwersi drama.

Yn y lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Mewn achosion eraill, gwnânt gynnydd cymedrol yn unig ac maent yn parhau i wneud gwallau sylfaenol yn eu hynganiad a strwythur eu brawddegau. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddefnyddio'r Gymraeg mewn eisteddfodau ysgol ac ar deithiau preswyl. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon aml, heblaw yn eu gwersi Cymraeg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion a gafodd eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd yn gwneud digon o gynnydd yn yr iaith.

Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'u gwaith. Gall llawer ohonynt esbonio'n glir gysyniadau sylfaenol o'r pynciau maent yn eu hastudio. Er enghraifft, gall disgyblion sy'n dilyn ffiseg Safon Uwch esbonio sut mae newidiadau i gyflymder goleuni mewn cyfryngau gwahanol yn achosi plygiant. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn huawdl a meddylgar dros ben. Gallant gymhwyso syniadau cymhleth i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd, fel wrth ddefnyddio'r dosbarthiad arferol i brofi damcaniaethau gwahanol. Gwna lleiafrif y disgyblion gynnydd rhagorol yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o ddiddordebau personol penodol o ganlyniad i'w prosiectau Bagloriaeth Cymru. Yn ystod y prosiectau hyn, maent yn ennill medrau ymchwil gwerthfawr, fel y gallu i gyfeirnodi eu gwaith yn gywir.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn setlo'n gyflym i'w tasgau. Mae llawer ohonynt yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd yn y dosbarth. Maent yn cydweithio â'i gilydd yn aeddfed mewn parau a grwpiau bach. Maent yn parchu cyfraniadau pobl eraill ac yn cynnig cymorth i'w cyfoedion. Mae ychydig o ddisgyblion yn parhau'n oddefol yn eu gwersi. Mae lleiafrif y disgyblion yn defnyddio adborth gan eu hathrawon yn effeithiol i fyfyrio ar eu dysgu a'i wella. Mae gan lawer o ddisgyblion ddyheadau uchel iawn, maent yn dangos chwilfrydedd ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo yr eir i'r afael yn briodol ag unrhyw achosion o fwlio neu aflonyddu. At ei gilydd, mae ymddygiad disgyblion mewn gwersi yn rhagorol. Mae llawer ohonynt yn ymddwyn yn dda wrth symud rhwng eu dosbarthiadau ac yn ystod amseroedd egwyl

a chinio, ac mae bron pob un ohonynt yn foesgar ac yn gwrtais tuag at ymwelwyr ac yn barchus tuag at staff yr ysgol. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol cryf ac maent yn cyflwyno'u hunain yn sicr wrth rannu eu safbwyntiau am eu profiadau ysgol ag ymwelwyr.

Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion moesegol a chyfoes yn dda drwy'r cwricwlwm a'r ystod eang o glybiau a chymdeithasau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae disgyblion yn y clwb eco yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd drwy drefnu wythnos beicio i'r ysgol i annog mwy o ddisgyblion i ystyried yr amgylchedd wrth deithio i'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi ansawdd y bwyd sydd ar gael iddynt yn ffreutur yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at lawer ohonynt yn gwneud dewisiadau bywyd iach. Serch hynny, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael digon o amser i gymdeithasu, ymlacio neu wneud ymarfer corff yn ystod eu hegwyl ginio.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sydd ar gael iddynt ac mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu lles. Mae cyfraddau cyfranogiad disgyblion ar draws y cyfleoedd helaeth hyn yn uchel, yn enwedig mewn clybiau chwaraeon a'r celfyddydau mynegiannol. Mae disgyblion yng 'nghlwb niwroamrywiaeth' yr ysgol yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi ac yn falch o'r cyfle mae'r clwb yn ei gynnig iddynt ddathlu amrywiaeth yn yr ysgol a meithrin cyfeillgarwch a chyfathrebu â chyfoedion o'r un meddylfryd.

Mae disgyblion yn deall ac yn arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd drwy gyfrannu eu hamser a'u barn drwy grwpiau cynrychioli disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, mae 'ymgynghorwyr y cwricwlwm' yn cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu cynlluniau dysgu ar gyfer meysydd pwnc yn sgil y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae mentora rhwng cyfoedion yn yr ysgol yn grymuso'r mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora, fel ei gilydd.

Mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn cyfranogi'n gyfrifol mewn gwneud penderfyniadau yn yr ysgol drwy'r cyfleoedd arweinyddiaeth niferus sydd ar gael iddynt. Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn ymgymryd â rôl weithredol mewn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill. Er enghraifft, fel rhan o'r tîm arweinyddiaeth myfyrwyr hŷn sy'n cael eu penodi'n ddemocrataidd, mae disgyblion hŷn yn darparu dull anffurfiol buddiol o gyfathrebu rhwng disgyblion a staff. Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo bod arweinwyr yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gref ac maent yn ddelfryd ymddwyn da i'w disgyblion. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol ac yn rhoi esboniadau clir a defnyddiol sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio terminoleg pwnc yn effeithiol ac yn darparu modelau iaith cryf i helpu disgyblion i wella eu hymatebion llafar ac ysgrifenedig.

Mae llawer o athrawon yn deall sut i ddewis a defnyddio'r strategaeth addysgu fwyaf priodol i'r pwnc i gefnogi dysgu. Maent yn cynllunio eu gwersi'n ofalus i ennyn a dal diddordeb disgyblion a thanio eu chwilfrydedd. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau, adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol a dwysau eu dealltwriaeth. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn sicrhau bod gwaith yn cyfateb yn dda i alluoedd disgyblion.

Mewn ychydig iawn o achosion lle mae'r addysgu'n arbennig o effeithiol, mae athrawon yn defnyddio ystod helaeth o ddulliau sy'n cynorthwyo disgyblion i ddod yn ddysgwyr gwydn, annibynnol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn modelu prosesau a meddwl yn fedrus ac yn mynnu ymatebion o ansawdd uchel gan eu disgyblion. Defnyddiant ystod eang o dechnegau i ddarganfod camsyniadau disgyblion a'u cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth, medrau a'u dealltwriaeth mewn modd sensitif. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl ac yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu dealltwriaeth bynciol.

Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac nid ydynt yn eu herio'n ddigonol. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n ailadroddus ac nad ydynt yn adeiladu'n ddigon da ar ei gilydd nac ar ddysgu blaenorol disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn rhoi esboniadau digon clir neu fanwl i gefnogi dealltwriaeth disgyblion ac nid ydynt yn ymyrryd yn ddigon da o ran ymddygiad oddi ar y dasg.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion yn addas mewn gwersi ac yn rhoi adborth llafar defnyddiol i gefnogi eu cynnydd. Ym mron pob gwers, mae athrawon yn gofyn cwestiynau caeedig addas i wirio gallu disgyblion i alw i gof. Mae lleiafrif yr athrawon yn defnyddio holi'n fedrus i herio meddylfryd disgyblion a dwysau eu dysgu. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau'n ddigon da i brocio a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u gwaith. At ei gilydd, mae ansawdd a defnyddioldeb adborth ysgrifenedig yn amrywio'n fawr. Yn y lleiafrif o achosion lle mae adborth ysgrifenedig yn arbennig o ddefnyddiol, mae athrawon yn cynnig arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt wneud hynny.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio hyn yn effeithiol i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth gwerthfawr i'r rhai sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach. Mae adrannau unigol yn nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w gwella, ac mae llawer o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion.

Lle y bo'n briodol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau gwahanol ar draws lawer o feysydd o'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio medrau digidol sylfaenol hefyd. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy weithgareddau fel eisteddfodau ac ymweliadau, fel ymweliadau i Lan-llyn a Llangrannog. Fodd bynnag, heblaw mewn gwersi Cymraeg,

nid yw staff yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi cynnydd academaidd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm cyfredol a datblygiadau tuag at y Cwricwlwm i Gymru wedi'u halinio'n glir â'r weledigaeth ar gyfer addysgu a'r cwricwlwm, sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pynciol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i astudio celf a cherddoriaeth y tu hwnt i Flwyddyn 8.

Mae ystod eang o ddewisiadau academaidd a galwedigaethol ar gael i ddisgyblion eu hastudio yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol cyn y broses opsiynau, a gall bron pob un o'r disgyblion ddewis y pynciau yr hoffent eu hastudio. Mae ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn manteisio ar gyrsiau perthnasol â darparwyr allanol am ran o'r wythnos, sy'n helpu i fodloni eu hanghenion dysgu.

Mae rhaglen gelfydd o wersi addysg bersonol a chymdeithasol wythnos, wedi'i hategu gan ddiwrnodau cyfan wedi'u neilltuo ar gyfer pynciau penodol, yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion mewn modd sensitif. Mae llawer o weithgareddau cyfoethogi ar gael yn ystod yr wythnos hefyd, fel clybiau pwnc, rhaglen Dug Caeredin, teithiau i'r theatr, dwy sioe ysgol flynyddol ac ymarferion chwaraeon rheolaidd. Mae cyfraddau cyfranogiad uchel yn y gweithgareddau hyn, sy'n rhan bwysig o brofiadau dysgu llawer o ddisgyblion. Darparodd wythnos gyfoethogi ym mis Mehefin 2021 ystod amrywiol o weithgareddau dysgu a lles addas i helpu disgyblion adfer ar ôl unigedd y pandemig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Stanwell yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn gyson sydd wedi'i seilio ar ddyheadau uchel, cynhwysiant a pharch. Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol tra ystyriol a chynhwysfawr i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u lles, iechyd meddwl a'u hanghenion emosiynol eu hunain. Yn ogystal, mae ystod eang o gyfleoedd cynlluniedig i archwilio themâu fel hunaniaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth. At ei gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol disgyblion ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio â'u cyfoedion â gofal a pharch. Yn ystod y pandemig, cynhaliodd yr ysgol ei threfniadau pontio wyneb-yn-wyneb i helpu disgyblion ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd, er enghraifft drwy gynyrchiadau hynod boblogaidd a llwyddiannus yr ysgol. Hefyd, mae detholiad eang o glybiau allgyrsiol a theithiau ysgol gwerthfawr. Mae gweithgareddau fel cynllun Gwobr Dug Caeredin a chodi arian at elusennau yn rheolaidd yn cyfoethogi datblygiad personol disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau am agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol. Yn ogystal â chyngor myfyrwyr, mae disgyblion yn cael cyfle i ymuno â grwpiau eraill sydd â ffocws penodol. Yn ogystal â dylanwadu ar gwricwlwm yr ysgol, mae'r grwpiau hyn yn dathlu amrywiaeth ac yn annog parch, empathi a chynhwysiant drwy'r ysgol gyfan.

Un o nodweddion hynod darpariaeth yr ysgol yw arweiniad cydlynol a gwerthfawr ar yrfaoedd i helpu disgyblion a rhieni archwilio dewisiadau at y dyfodol. Mae staff yn trefnu nosweithiau agored sy'n bodloni diddordebau disgyblion yn dda ac yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o yrfaoedd, yn enwedig y rhai mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a phrentisiaethau â chyflogwyr lleol. Gall pob disgybl fanteisio ar gymorth, cyngor ac arweiniad buddiol a chânt eu hannog i fynychu ffeiriau cenedlaethol a diwrnodau agored colegau neu brifysgolion.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel, ac mae staff ar bob lefel yn gweithio'n ofalus i hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant buddiol i gadw eu hunain a disgyblion yn ddiogel ac maent yn glir ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i bryderon diogelu ac yn gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau allanol, lle bo hynny'n briodol. Mae ganddi system gydlynol i gofnodi manylion am unrhyw ddigwyddiadau ac mae arweinwyr yn defnyddio staff yr ysgol a phartneriaid allanol yn feddylgar i gefnogi disgyblion unigol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cryf i hyrwyddo presenoldeb disgyblion, sy'n cynnwys monitro'n ofalus, cyfathrebu â rhieni a dathlu llwyddiant.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a'r tîm cymorth dysgu yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cynnig cymorth tra ystyriol iddynt. Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr i fonitro cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau unigol. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth o'r system hon yn dda i gynnig ymyriadau pwrpasol i gefnogi lles disgyblion a'u cynnydd academaidd. Mae Ysgol Stanwell yn hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion bregus yn dda. Er enghraifft, mae wedi cyflogi aelod staff i gefnogi plant sy'n derbyn gofal i gynorthwyo'r disgyblion hyn i ffynnu yn yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar feithrin lles disgyblion a chefnogi eu dyheadau. Mae'n rheoli newid yn effeithiol wrth iddo lywio'r ysgol drwy gyfnod o newid addysgol mewn modd sensitif ar ôl y tarfu a achoswyd gan y pandemig.

Mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno dulliau buddiol ar gyfer gweithio ar y cyd a dysgu cyfunol, sy'n meithrin ymdeimlad o gydlyniad ymhlith y staff. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol yn gynyddol ar sail ymddiriedaeth a pharch, lle mae pob disgybl yn 'dysgu i ragori' mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae ailffocysu gweledigaeth yr ysgol yn y modd hwn yn dechrau treiddio drwy waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn dechrau rhannu'r weledigaeth hon yn ehangach i greu cyfleoedd buddiol i rieni a disgyblion drafod blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth gynyddol i hyrwyddo diwylliant o ddiogelu y mae lles disgyblion yn ganolog iddo. Mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro rolau a chyfrifoldebau'r tîm arweinyddiaeth i gefnogi'r newid hwn. Mae ychwanegu dirprwy bennaeth i arwain ar gyfrifoldebau bugeiliol wedi creu strwythur arweinyddiaeth sydd wedi'i gydbwyso'n dda i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith arweinwyr sy'n cefnogi newid. Mae gan aelodau'r uwch dîm fedrau cyflenwol ac maent yn herio ei gilydd mewn modd cefnogol. Mae rolau a

chyfrifoldebau arweinwyr wedi'u diffinio'n glir, ond maent yn ddigon hyblyg i'r ysgol allu ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol, fel y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol a datblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan yr uwch dîm. Maent yn deall blaenoriaethau'r ysgol a'i gweledigaeth ar gyfer gwella yn dda. At ei gilydd, maent yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn effeithiol. Lle mae anghysondebau mewn arweinyddiaeth ganol, mae uwch arweinwyr yn cymryd camau cadarnhaol i gefnogi a gwella perfformiad. Mae'r holl swyddogaethau rheoli, fel cyfarfodydd a systemau atebolrwydd, yn alinio'n agos â gweledigaeth a blaenoriaethau'r ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas ac yn canolbwyntio ar feysydd allweddol i'w gwella. Maent yn cynnwys amcanion uchelgeisiol, meini prawf llwyddiant defnyddiol a chyfleoedd buddiol i staff wella eu harfer.

Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo'r ysgol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol ac yn cynnig her gadarn i arweinwyr sy'n helpu llywio eu penderfyniadau.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sicrhau y caiff cyllid ei gyfeirio'n briodol tuag at flaenoriaethau'r ysgol. Defnyddiwyd y Grant Datblygu Disgyblion yn briodol i gynyddu gallu'r ysgol i gefnogi lles disgyblion.

Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol ac maent yn hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus. Mae rhaglen helaeth a ffocysedig o adolygiadau adrannol, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith, yn ogystal ag ystyried barn staff a disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i arweinwyr o ansawdd darpariaeth a'i heffaith ar gynnydd a lles disgyblion. Cânt eu defnyddio'n llwyddiannus hefyd i ddatblygu deialog broffesiynol gref ynghylch sut i gyflawni darpariaeth o ansawdd uchel. At ei gilydd, mae arweinwyr canol yn deall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb yn dda, ac yn creu cynllunio tra ystyriol a chydlynol ar gyfer gwella. Mae'r agweddau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at welliannau i ansawdd yr addysgu, safon gwaith disgyblion a lles disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl staff. Cânt eu hannog a'u cynorthwyo i ddatblygu eu harfer a chyfrannu at fentrau ysgol gyfan. Mae'r dull hwn yn hybu ymdeimlad o ymdrech ar y cyd, lle mae arweinwyr yn ymddiried yn arbenigedd athrawon ac yn eu hannog i archwilio a defnyddio'r strategaethau mwyaf effeithiol sy'n benodol i'r pwnc. Mae gan yr ysgol ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol dros amser ac mae'n cynnig rhaglenni manwl a theilwredig i staff addysgu a staff cymorth i gefnogi eu gwaith. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu athrawon i ganolbwyntio ar ddatblygu eu haddysgu a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. At ei gilydd, mae dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar arfer athrawon a staff cymorth. Mae'r ysgol yn defnyddio ei gwaith partneriaeth fel ysgol arweiniol ar gyfer addysg athrawon i helpu creu diwylliant cryf o ddysgu yn seiliedig ar ymholiad i'r holl staff. Mae gweledigaeth glir a buddsoddiad cynaledig mewn diwylliant o anogaeth i wella arfer staff addysgu a staff cymorth dysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2022